

YMARFERYDD CYSYLLTIOL DULLIAU ADFEROL /CYFARFOD GRŴP TEULU (RAFGM)

TGP Cymru yw'r brif elusen yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn cynrychioli plant a phobl ifanc agored i niwed drwy amrywiaeth o brosiectau, hyfforddiant ac ymgyrchu. Mae gwasanaethau TGP Cymru yn cael eu hariannu gan nifer o gyllidwyr ac maent yn darparu gwasanaethau ledled Cymru.



Adran TGP Cymru: Gwasanaethau Teuluoedd

Yn atebol i: Rheolwr Tîm Dulliau Adferol / Cyfarfod Grŵp Teulu (RAFGM)

Lleoliad: Gweithio gartref. *Nid oes gwaith wyneb yn wyneb yn digwydd ar hyn o bryd ac mae'r holl ymyriadau'n digwydd yn rhithiol. Gall hyn newid wrth i'r cyfyngiadau symud lacio.*

Diben y swydd:

Bydd yr Ymarferydd Cysylltiol RAFGM yn darparu Dulliau Adferol / Cyfarfodydd Grŵp Teulu, Hyfforddiant neu Ymgynghoriaeth yn unol â pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru gan sicrhau cydymffurfiaeth reoleiddiol a chontractiol y sefydliad.

Mae'r swydd ar sail hunangyflogedig.

Atebolrwydd / Cyfrifoldebau

- Derbyn atgyfeiriadau yn unol â meini prawf y cytunwyd arnynt.
- Egluro i aelodau'r teulu sut y gallai'r gwasanaeth gynorthwyo gyda'u problemau / anawsterau a gofyn am eu caniatâd i atgyfeirio.
- Nodi pwy ddylai gymryd rhan a Pharatoi / Annog / Cefnogi / Galluogi aelodau'r teulu a gweithwyr proffesiynol i ymgysylltu a chyflawni eu canlyniadau dymunol gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau gan gynnwys Dulliau Adferol, Datrys Gwrthdaro a Chyfarfodydd Grŵp Teulu.
- Cyd-gysylltu a thrafod â gweithwyr proffesiynol perthnasol i sicrhau bod swyddogaethau, cyfrifoldebau, disgwyliadau a chyfraniadau yn cael eu trefnu, eu deall a'u gweithredu'n glir.
- Codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a brwdfrydedd dros waith y Gwasanaeth, ymhlith gweithwyr proffesiynol priodol.
- Darparu hyfforddiant / ymgynghoriaeth y cytunwyd arnynt.
- Sicrhau bod cyfle cyfartal ac arferion gwrthwahanïaethol yn cael eu cynnal, a bod safonau TGP Cymru yn hyn o beth yn cael eu defnyddio.
- Cynorthwyo'r Rheolwr Tîm i asesu allbynnau'r Gwasanaeth o'u cymharu â fframwaith y canlyniadau y cytunwyd arnynt drwy fonitro gweithgarwch a chasglu gwybodaeth briodol gan gynnwys adborth gan ddefnyddwyr gwasanaeth.
- Cydymffurfio â systemau a pholisïau a gweithdrefnau TGP Cymru gan gynnwys cyllid, adrodd, rheoli a diogelu data.

Dangosyddion Perfformiad

- Yn gyfrifol am gyflawni dangosyddion perfformiad a safonau ymarfer allweddol.
- Ansawdd gwasanaeth a chydymffurfiaeth o gymharu â safonau a gofynion statudol, rheoliadol, sefydliadol ac arfer gorau.
- Cyflawni amcanion a thargedau gwasanaeth.

Cyfrifoldeb rheoli llinell (o 01/01/21):

0

Cyfrifoldeb rheoli cyllideb (ar 01/01/21):

£0

Gradd:

Cydlynedd Cysylltiol Cyfarfodydd Grŵp Teulu – Bydd y tâl yn ddibynnol ar brofiad.

Amodau gwaith:

Bydd aseiniadau'n cael eu cynnig ar gyfer darnau unigol o waith ac mae Gweithwyr Cysylltiol yn rhydd i'w derbyn neu'u gwrthod. Ar gyfer yr holl aseiniadau a dderbynnir, bydd yr oriau yn cael eu cytuno gyda'r Rheolwr Tîm.

Mae angen rhywfaint o weithio y tu allan i oriau swyddfa sy'n gofyn am agwedd hyblyg o ran ymdrin â'r wythnos waith.

Cymwysterau

- Cymhwyster proffesiynol mewn gwaith cymdeithasol, gwaith ieuenctid a chymunedol neu ddisgyblaeth gysylltiedig fel Iechyd ac Addysg (Dymunol).

Sgiliau a galluoedd / cymwyseddau

Bydd deiliad y swydd yn gallu:

- cynhyrchu canlyniadau o safon mewn modd amserol sy'n canolbwyntio ar y gwasanaeth ac yn ymrwymo i gyflawni canlyniadau y cytunwyd arnynt.
- cydweithio'n dda â chydweithwyr a phartneriaid a chydabod gwahanol syniadau, safbwyntiau a chefnidiroedd pobl eraill.
- cynllunio a threfnu gwaith a rheoli amser yn effeithiol.
- cyfathrebu'n effeithiol h.y. mynegi gwybodaeth a syniadau mewn modd eglur, cryno a chywir; gwranddo'n weithredol a sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu.

- bod yn agored i ddulliau gweithredu a syniadau newydd, ymateb yn gadarnhaol i newid ac addasu'n gyflym i sefyllfaoedd newydd.

Gwybodaeth / Profiad

Bydd deiliad y swydd yn gallu dangos dealltwriaeth gadarn a thystiolaeth o gyflawniad yn y meysydd canlynol:

- Dull gweithio teulu cyfan gyda phlant, pobl ifanc a phobl ifanc mewn sefyllfaoedd cymhleth gan gynnwys diogelu.
- Cyfarfodydd Grŵp Teulu / Ymarfer Adferol / Datrys Gwrthdaro.
- Hwyluso grwpiau / cyfarfodydd cymhleth.
- Defnyddio llwyfannau cyfarfod rhithiol ar-lein.

Arall

- Arddangos gwerthoedd ac ymddygiad TGP Cymru bob tro a mynd ati i'w hyrwyddo mewn eraill.
- Ymrwymiad i gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Trwydded yrru lawn a bod â'r defnydd o gerbyd (*Mewn rhai amgylchiadau gellir ystyried ymgeiswyr nad ydynt yn gallu gyrru o ganlyniad i anabledd*).
- Y gallu i siarad Cymraeg (dymunol).